# Lefel 1 / 2
# Dyfarniad Galwedigaethol mewn Peirianneg (Dyfarniad Technegol)
ADDYSGU O 2022

## Cwestiynau Cyffredin

### Cyflwyniadau a Dyddiadau Cyflwyno

### Beth yw'r dyddiad cau ar gyfer cyflwyno Uned 1 a 2?

Y dyddiadau cau ar gyfer cyflwyno Unedau 1 a 2 mewn unrhyw flwyddyn academaidd yw:

- 10 Rhagfyr ar gyfer cyfres y gaeaf.
- 5 Mai ar gyfer cyfres yr haf.

Dyddiadau cau ar gyfer cyflwyno'n electronig drwy ein platfform IAMIS yw'r rhain. Am fwy o wybodaeth, cyfeiriwch at y canllaw Uwchlwytho Asesiad Di-Arholiad pwnc benodol, sydd i'w weld o dan y dogfennau allweddol ar y wefan.

Rhaid i bob marc, gwaith papur gweinyddol a sampl y gofynnir amdanynt gael eu cyflwyno erbyn y dyddiadau cau uchod. **Noder** - bydd angen i ganolfannau fewnbynnu marciau cyn y dyddiad cau er mwyn cynhyrchu'r sampl.

### Beth sydd angen ei gyflwyno fel rhan o'r sampl?

Yr holl ddogfennau gweinyddu asesu, gwaith y dysgwyr a'r dystiolaeth a ddefnyddiwyd i wneud y dyfarniadau a'r penderfyniadau asesu ar gyfer y marc a gyflwynwyd. Dilynwch y canllaw Uwchlwytho Asesiad Di-Arholiad pwnc-benodol yn fanwl gan y bydd yn cynorthwyo'r broses gymedroli (trosolwg byr isod):

Cyflwynwch mewn 2 ffeil – 1 - **Ffeil gweinyddu** i gynnwys:

- Datganiad yr Ymgeisydd
- Taflen Cofnodi Amser Yr Ymgeisydd
- Taflenni Cofnod Asesu
- Cofnod Arsylwi **(Uned 1 yn Unig)**

2 - **Ffeil dystiolaeth** i gynnwys:

- Holl waith y dysgwr a'r wybodaeth a ddefnyddiwyd i wneud y penderfyniadau asesu.

Gallwch ddefnyddio fformatau ffeil Word, PDF, PPT, Excel a Llun. Peidiwch ag uwchlwytho fformatau llun unigol fel jpgs, dylid cyflwyno'r rhain yn briodol gan ddefnyddio cyflwyniadau PowerPoint neu fformatau cyflwyniadol priodol eraill i gyflymu'r broses gymedroli.

## Rydym wedi symud draw at CBAC o sefydliad dyfarnu gwahanol. Sut mae cofrestru dysgwyr ar gyfer y cymhwyster?

Bydd angen i chi fod yn ganolfan gymeradwy gyda CBAC er mwyn cynnig y cymhwyster hwn, ond nid oes angen cymeradwyo'r cymhwyster. Os **nad** ydych yn cael eich cymeradwyo fel canolfan dylech anfon e-bost at: canolfannau@cbac.co.uk.

Nid oes proses ymrestru ar gyfer y cymhwyster hwn. Gofynnir i chi ddarparu data cyn cofrestru yn gynnar yn y flwyddyn academaidd ac yna cyflwyno ceisiadau ar gyfer y dysgwyr hynny sydd angen asesiad erbyn y dyddiad cau ar gyfer cofrestriadau (21 Chwefror ar gyfer yr haf). Dylai eich swyddog arholiadau fod yn gyfarwydd â'r broses hon a gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth ar ein tudalen cofrestriadau.

# Modelau Cyflwyno

## A allwn gyflwyno'r asesiad ar gyfer Uned 1 a/neu 2 (i'w cyflwyno ym Mlwyddyn 10) ym mis Ionawr neu fis Mehefin (Blwyddyn 11)?

Na. Cyhoeddir Briffiau Asesu Uned 1 a / neu Uned 2 ym mis Mehefin i'w hasesu yn y flwyddyn academaidd nesaf ac felly mae'n rhaid eu cwblhau a'u cyflwyno yn y flwyddyn honno. Ni ellir trosglwyddo Briffiau Asesu Uned 1 a /neu Uned 2 i'r blynyddoedd dilynol.

## A allwn ni gyflwyno Uned 1 a/neu Uned 2 ym mlwyddyn 10 ac yna'r Uned(au) arall ym mlwyddyn 11?

Bydd. Y ganolfan fydd yn penderfynu ar y model cyflwyno. Roedd yr hyblygrwydd hwn wedi'i roi yn ei le i ganiatáu i sawl opsiwn ymdrin â modelau cyflwyno amrywiol sy'n ystyried amser, adnoddau, a maint dosbarthiadau. Yr unig amod yw bod yn rhaid i ddysgwyr sefyll yr arholiad (Uned 3) yn y gyfres ardystio. Dyma'r 'rheol derfynol'.

# Briffiau Asesu

## Ble gallaf ddod o hyd i friffiau asesu ar gyfer Uned 1 ac Uned 2?

Mae'r Briffiau Asesu ar gael ar y porth:

Defnyddiwch y tab **Adnoddau** ar y brig ar yr ochr chwith yna **Deunyddiau Cefnogi Pwnc Penodol gan gynnwys DPP ac Enghreifftiau**


**Hidlyddion:**

| | | |
|---|---|---|
| Pwnc | > | Peirianneg;<br>Dyfarniad Lefel 1/2; |
| Math o ddogfen | > | Tasgau Asesu Di-arholiad; |
| Blwyddyn Gyhoeddi | > | 2023; |
| Iaith | > | Cymraeg; |
| Brand | > | CBAC. |

Efallai y bydd angen i chi ofyn i'ch Swyddog Arholiadau osod cyfrif eilaidd ar eich cyfer i chi gael mynediad i'r briffiau hyn?

# A yw'r Briffiau Asesu yn newid bob blwyddyn neu ydyn nhw'n gyfredol drwy gydol y cwrs?

Cyhoeddir y Briffiau Asesu'n flynyddol ac maent yn cael eu cyhoeddi ar gyfer asesiad mewn blwyddyn benodol. Gellir eu ar gyfer cyfres y gaeaf neu'r haf yn ystod y flwyddyn y cawsant eu rhyddhau. Bydd briffiau newydd yn cael eu cyhoeddi ym mis Mehefin bob blwyddyn gan gynnwys dau friff Uned 2. Un i gysylltu â thasg newydd Uned 1 ac un i gysylltu â thasg Uned 1 y flwyddyn flaenorol. Mae hyn yn galluogi hyblygrwydd mewn modelau cyflwyno. Mae tudalen flaen pob briff yn dweud wrthych pryd y gellir cyflwyno'r gwaith i'w asesu ar gyfer y briff hwnnw.




# Pa mor wahanol fydd y tasgau bob blwyddyn?

Bydd pob tasg yn cael ei chynllunio i gwmpasu'r un amrediad o sgiliau a gwybodaeth i gefnogi dibynadwyedd yr asesiad. Byddwn hefyd yn ystyried gofynion y defnyddiau a'r offer o asesiadau blaenorol er mwyn lleihau'r angen i ddod o hyd i ddefnyddiau o feintiau a mathau newydd ac i ddod o hyd i offer newydd bob blwyddyn.

# A allwn ni wneud addasiadau i dasg Uned 1?

Cytunwyd a nodwyd o ddechrau'r cymhwyster hwn y bydd elfen o hyblygrwydd yn rhan o asesiad Uned 1 i weddu i anghenion a heriau'r ganolfan megis defnyddiau, cyllidebau, maint dosbarthiadau, adnoddau, amserlenni ac offer. Felly, mae'n dderbyniol gwneud rhai addasiadau er mwyn gweddu. Ni all yr addasiadau gyfyngu ar fynediad dysgwr i ddangos amrediad o sgiliau a gwybodaeth i ennill y marciau lefel uwch sydd eu hangen ar gyfer teilyngdod a rhagoriaeth.

## Asesu Uned 1

# Faint o brosesau sydd angen i'r dysgwr eu cwblhau?

Nid oes nifer penodol o brosesau oherwydd yr amrywiaeth o adnoddau ac offer sydd gan y ganolfan. Mae angen i ddysgwyr ddefnyddio amrediad digonol o sgiliau a gwybodaeth i gwmpasu gofynion y cynllun marcio ac i gyrraedd yr amrediad llawn o farciau. Mae'r dyfarniad o ddigonolrwydd gan gynnwys digon o dystiolaeth, yn ddyfarniad proffesiynol a wnaed gan yr aseswr.

# Mae gan asesiad Uned 1 eleni gydrannau dyblyg. Oes rhaid gwneud pob un ohonyn nhw?

Na. Mae'n asesu amrediad o sgiliau a gwybodaeth peirianneg a ddefnyddir i gynhyrchu cydrannau peirianneg sy'n ffurfio cydosodiad. Nid oes gofyniad i ddyblygu'r asesiad o sgiliau a gwybodaeth os yw'r dysgwr wedi eu dangos yn ddigonol.

## A oes modd gwasgaru’r 20 awr asesu dros y flwyddyn, neu oes angen ei gwblhau mewn cyfnod penodol?

Oes. Mae tudalen 6 y canllaw gweinyddu yn nodi 'Mae pob aseiniad yn asesiad crynodol ac ni ddylai'r ymgeisydd roi cynnig arno nes bod yr holl addysgu a dysgu ar gyfer yr Uned wedi bod. Er bod canolfannau yn gallu trefnu asesiad dan reolaeth dros nifer o sesiynau, ni ddylai addysgu a dysgu ychwanegol ddigwydd rhwng sesiynau'.

## A oes angen i ni gyflwyno ffotograffau, ac a ellir cyflwyno tystiolaeth ar ffurf llawysgrifen, neu a oes angen ei brosesu â geiriau?

Mae Tudalen 19 yng nghanllaw Uned 1 yn nodi 'Mae ymgeiswyr yn gallu cyflwyno gwaith gan ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau, naill ai'n ysgrifenedig neu'n ddigidol. Dylai ymgeiswyr gael eu hannog i ddewis eu dull eu hunain o gyflwyno eu gwaith, a all fod yn gyfuniad o faint A4 ac A3. Dylai portffolios digidol gael eu cyflwyno mewn fformat PDF â delweddau â chydraniad addas er mwyn galluogi cymedrolwr i weld manylder eu gwaith. Mae hyn yn arbennig o bwysig i'r adrannau gweithgynhyrchu. Dylai o leiaf tri ffotograff manwl o ddeilliannau gweithgynhyrchu’r ymgeiswyr gael eu cynnwys. Dylai ffotograffau ddangos cynnyrch sydd wedi'i gydosod yn llawn (os yw wedi'i gwblhau), yr holl gydrannau wedi'u gosod a delwedd agos yn dangos ansawdd y gorffeniad. Gall canolfannau ychwanegu mwy na thri llun os ydynt yn dymuno ond dylech gyflwyno ffotograffau mewn fformat cyflwyniadol addas ar gyfer cymedroli.

## A all dysgwyr ddefnyddio atebion enghreifftiol neu fframiau ysgrifennu a ddarperir gan yr ysgol fel tystiolaeth?

Na. Mae paragraff 4.1 ar dudalen 9 cyfarwyddiadau CBAC ar gyfer cynnal asesiadau dan reolaeth yn nodi 'Rhaid i ganolfannau **beidio** â darparu atebion enghreifftiol na fframiau ysgrifennu sy'n benodol i'r dasg (megis amlinelliadau, penawdau paragraffau neu benawdau adrannau)'. Mae hyn yn berthnasol i bob pwnc.

## Pam mae Uned 1 yn newid yn flynyddol pan allai'r hen fanyleb fod yr un fath am nifer o flynyddoedd yn y gorffennol?

Mae'r rheoleiddwyr yn dadansoddi ac yn gwerthuso'r sefyllfa o ran y cymwysterau sydd ar gael yn gyson. Gall hyn arwain at y gofyniad am newidiadau i rai cymwysterau a mathau o gymwysterau. Mae'r newid o asesiad 'a osodwyd gan y ganolfan' i asesiad ‘a osodwyd yn allanol' yn enghraifft wych o ganlyniad y gwaith a wnaed gan y rheoleiddwyr.

# Asesiad Uned 2

## A oes angen i ddysgwyr greu modelau o'u datrysiadau dylunio posibl?

Mae Tasg 2a yn gofyn am ‘defnyddio modelau i gefnogi, datblygu a phrofi rhinweddau swyddogaethol eu syniadau.’ Dylai modelau ffisegol ddenu mwy o farciau gan y bydd dysgwyr yn gallu dangos defnydd effeithiol ac ystyrlon o fodelau.

Mae Tasg 2c yn gofyn i ddysgwyr ystyried ‘cynnwys cymorth gweledol fel modelau syml, delweddau CAD neu rigiau profi’. Byddai modelau CAD yn addas i'w defnyddio i gyflwyno eu dyluniad.

## Beth yw'r gwahaniaeth rhwng 'Manyleb Ddylunio' a 'Manyleb Gweithgynhyrchu'?

Bydd manyleb ddylunio yn darparu gwybodaeth ddylunio a manylion yr hyn y mae'n rhaid ei wneud neu ei gwblhau. Er enghraifft, gallai manyleb ddylunio ddarparu manylion ar gyfer twll megis maint, dyfnder, gorffeniad a lleoliad Ø. Byddai manyleb gweithgynhyrchu yn rhoi manylion am sut i gynhyrchu'r twll. Er enghraifft, pa broses i'w defnyddio, pa offer i'w defnyddio a pha beiriant i'w ddefnyddio. Gall fod yn dwll wedi ei ddrilio, yn dwll wedi ei ledu, neu'n dwll wedi ei droi. Byddai'r fanyleb gweithgynhyrchu yn diffinio hyn ond mae'n bosibl na fyddai'r fanyleb ddylunio.

# Uned 3 Themâu Arholiadau

## A allwn gael eglurhad o'r pwyntiau ffocws a restrir? ffonau symudol, parciau thema ac ati? A fydd y rhain yn ymddangos yn yr arholiad?

Byddant. Bydd yr arholiad yn cael ei osod fel y nodir ar dudalen 30 y fanyleb (4.1 - Asesiadau allanol) a bydd yn cynnwys cwestiynau sy'n gysylltiedig yn uniongyrchol â chynnwys yr Uned. Mae hyn yn cynnwys y manylion a nodir yn 3.1.1 (tudalen 26 y fanyleb a thudalen 6 canllaw Uned 3) 'Dylai dysgwyr wybod a deall sut mae datblygiadau peirianegol yn effeithio ar ddyluniad cynhyrchion ac adeileddau. Mae'r rhain yn cynnwys datblygiadau mewn:

- dylunio adeileddol, gan ganolbwyntio ar ddatblygu beiciau;
- dylunio mecanyddol, gan ganolbwyntio ar ddatblygu reidiau mewn parciau thema;
- dylunio electronig, gan ganolbwyntio ar ddatblygu ffonau symudol/technoleg glyfar'.

# Dyfarnu

## Sut mae'r marciau crai yn trosi'n farciau ar y raddfa marciau unffurf (GMU)?

Bydd marciau crai ar gyfer pob uned yn trosi i raddau yn seiliedig ar y ffiniau a osodwyd ar ddiwedd pob cyfres. Yna bydd y graddau yn trosi i GMU yn unol â'r tabl sydd i'w weld ar dudalen 35 o'r fanyleb. Yna dylid ychwanegu'r marciau GMU ar gyfer pob uned i nodi'r radd gyffredinol. Tabl GMU:

| | | Level 2 | | | | Level 1 | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Unit | Max | D* | D | M | P | D* | D | M | P |
| Unit 1 | 120 | 108 | 96 | 84 | 72 | 60 | 48 | 36 | 24 |
| Unit 2 | 60 | 54 | 48 | 42 | 36 | 30 | 24 | 18 | 12 |
| Unit 3 | 120 | 108 | 96 | 84 | 72 | 60 | 48 | 36 | 24 |

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Qualification | 300 | 270 | 240 | 210 | 180 | 150 | 120 | 90 | 60 |

Er enghraifft: Os yw ymgeisydd yn cyflawni Lefel 2 Teilyngdod ar gyfer Uned 1, bydd hyn yn cyfateb i 84 marc GMU.

# Deunyddiau ac Adnoddau

## A fydd taflen farcio ar gyfer Uned 1 ac Uned 2?

Bydd. Byddan nhw'n cael eu rhyddhau rhwng mis Medi a mis Rhagfyr.

## Os oes gennyf ragor o gwestiynau, gyda phwy ddylwn i gysylltu?

Bydd y tîm Peirianneg a thîm ehangach CBAC yn hapus i ateb unrhyw gwestiynau neu ymholiadau sydd gennych.

Ewch i'n gwefan am amryw o gysylltiadau defnyddiol:

Ar gyfer trefniadau mynediad, cysylltwch â:

**Adran Gofynion Arbennig**
029 2026 5155
Specialrequirements@wjec.co.uk

Ar gyfer pob ymholiad arall am y pwnc cysylltwch â:

**Gareth Cook**
**Swyddog Pwnc**

**Mike Saltmarsh**
**Swyddog Cefnogaeth Pwnc**
029 2240 4307
peirianneg@cbac.co.uk

Mae amrywiaeth o Gwestiynau Cyffredin eraill ar gael hefyd, sy'n benodol i bob Uned sydd i'w gweld yn y canllawiau canlynol:

Canllaw Uned 1 - Tudalennau 20 hyd at 23
Canllaw Uned 2 - Tudalennau 17 hyd at 20
Canllaw Uned 3 - Tudalennau 22 hyd at 23